ATODLEN 3

Rheoli a dileu TSE mewn anifeiliaid buchol

**Swm y iawndal sy'n daladwy**

**9.**—(1) Yr iawndal yw'r pris cyfartalog a delir ym Mhrydain Fawr am anifail o'r oedran a'r categori dan sylw—

(a) yn achos anifail pedigri, yn ystod y chwe mis cyn y dyddiad y'i prisiwyd; a

(b) yn achos unrhyw anifail buchol arall, yn ystod y mis cyn y dyddiad y'i prisiwyd.

(2) Anifail pedigri yw anifail y dyroddwyd tystysgrif pedigri iddo gan sefydliad bridwyr neu gymdeithas sy'n bodloni amodau Penderfyniad y Comisiwn 84/247/EEC sy'n pennu'r criteria ar gyfer cydnabod sefydliadau bridwyr a chymdeithasau sy'n cynnal neu'n sefydlu llyfrau buches ar gyfer anifeiliaid bridio o frîd pur o'r rhywogaethau buchol([1]).

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gategoreiddio anifeiliaid fel a ganlyn, ac at y diben o benderfynu pa gategori y mae anifail yn perthyn iddo, oedran yr anifail yw'r oedran a ddangosir ar ei basbort gwartheg ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o'r bwriad i'w ladd—

**Categorïau**

| Gwryw | Benyw |
|---|---|
| Sector cig eidion — anifail di-bedigri | |
| Hyd at a chan gynnwys 3 mis | Hyd at a chan gynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at a chan gynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at a chan gynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 9 mis | Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 9 mis |
| Dros 9 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis | Dros 9 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at a chan gynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at a chan gynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis | Dros 20 mis |
| Teirw bridio | Wedi bwrw llo |
| Eraill | Heb fwrw llo |
| Sector llaeth — anifail di-bedigri | |
| Hyd at a chan gynnwys 3 mis | Hyd at a chan gynnwys 3 mis |
| Dros 3 mis hyd at a chan gynnwys 6 mis | Dros 3 mis hyd at a chan gynnwys 6 mis |
| Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis | Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 16 mis | Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 16 mis |
| Dros 16 mis hyd at a chan gynnwys 20 mis | Dros 16 mis hyd at a chan gynnwys 20 mis |
| Dros 20 mis | Dros 20 mis |
| | Wedi bwrw llo |

(**1**) OJ Rhif L 125, 12.05.1984, t.58

| Gwryw | Benyw |
| --- | --- |
| | Heb fwrw llo |
| Sector cig eidion — anifail pedigri | |
| Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis | Dros 6 mis hyd at a chan gynnwys 12 mis |
| Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 24 mis | Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 24 mis |
| Dros 24 mis | Dros 24 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw llo, o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo, 36 mis a throsodd |
| Sector llaeth — anifail pedigri | |
| Hyd at a chan gynnwys 2 fis | Hyd at a chan gynnwys 2 fis |
| Dros 2 fis hyd at a chan gynnwys 12 mis | Dros 2 fis hyd at a chan gynnwys 10 mis |
| Dros 12 mis hyd at a chan gynnwys 24 mis | Dros 10 mis hyd at a chan gynnwys 18 mis |
| Dros 24 mis | Dros 18 mis (heb fwrw llo) |
| | Wedi bwrw llo, o dan 36 mis |
| | Wedi bwrw llo, 36 mis a throsodd |